

Atodiad 1A – Nodiadau Cyfarfod gyda'r Corff Llywodraethu ac Aelodau o Staff Ysgol Gyfun Aberpennar

Dyddiad	11 Rhagfyr 2024
Amser	15:45
Lleoliad	Ysgol Gyfun Aberpennar

Yn bresennol		
Enw	Llythrennau cyntaf yr enw	Teitl
Gaynor Davies	GD	Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Andrea Richards	AR	Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Ysgolion yr 21 ^{ain} Ganrif a Materion Trawsnewid
Lisa Howell	LH	Rheolwr Busnes a Threfniadaeth Ysgolion
Ellen Williams	EW	Rheolwr Adnoddau Dynol
Bethan Gannon	BG	Swyddog Cymorth – Gwella Ysgolion
Staff a Llywodraethwyr o Ysgol Gyfun Aberpennar		

1. Croeso a Chyflwyniadau

Estynnodd GD groeso i bawb, gan ddiolch iddyn nhw am ddod i'r cyfarfod. Cafodd pawb ei gyflwyno i'w gilydd.

2. Trosolwg o'r Ymgynghoriad

Rhoddodd GD drosolwg o'r cynnig a'r broses ymgynghori i'w dilyn, yn ôl yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Ddogfen Ymgynghori.

3. Cwestiynau gan Aelodau o Staff ac Aelodau o'r Corff Llywodraethu

Gwahoddwyd y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff Ysgol Gyfun Aberpennar i ofyn cwestiynau. Mae'r cwestiynau a'r sylwadau a godwyd gan y Corff Llywodraethu ac aelodau o staff a'r ymatebion a ddarparwyd wedi'u crynhoi yn y tabl sy'n dilyn.

Rhif	Cwestiwn/Sylw	Ymateb
1	Yn 2014, unodd tair ysgol uwchradd leol i ffurfio Ysgol Gymunedol Aberdâr ac am flynyddoedd bu disgyblion ac aelodau o staff yn ffurfio eu grwpiau eu hunain. Mae staff Ysgol Gyfun Aberpennar yn pryderu y bydd hyn yn digwydd gyda'u disgyblion chweched dosbarth.	<p>Roedd Ysgol Gymunedol Aberdâr yn uniad llawer mwy a bu newid mewn arweinyddiaeth a oedd yn ychwanegu cymhlethdod bryd hynny.</p> <p>Ar hyn o bryd mae 75.0% o ddisgyblion chweched dosbarth Ysgol Gyfun Aberpennar wedi'u cofrestru'n ddeuol gyda'r ysgolion uwchradd eraill yn y trefniant consortiwm, felly mae llawer o berthnasoedd rhwng disgyblion, ac</p>

		<p>aelodau o staff a disgyblion eisoes wedi'u ffurfio.</p> <p>Bydd angen cryfhau trefniadau pontio. Rydyn ni'n cynghori Ysgol Gyfun Aberpennar i drafod y broses yma ag ysgolion eraill yn yr ardal sydd wedi profi newid tebyg. Mae modd trefnu ymweliadau gyda cholegau ac ysgolion lleol er mwyn i ddisgyblion brofi opsiynau eraill.</p>
2	<p>Roedd disgyblion blwyddyn 11 presennol yn bwriadu gwneud cais am le mewn chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar, nawr dydyn nhw ddim. Mae staff wedi treulio amser yn paratoi'r disgyblion ac mae'r cynnig wedi achosi llawer o ofid a phryder.</p> <p>Mae rhai o'r disgyblion yma o dan anfantais, cafodd rhai disgyblion eu heffeithio'n fwy nag eraill gan Covid-19, ac mae angen cymorth ychwanegol ar rai yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Nawr, yn ystod y broses o newid, mae rhai disgyblion yn poeni am y dyfodol, yn teimlo'n siomedig a'u bod yn cael eu trin yn annheg wrth ddewis eu camau nesaf.</p>	<p>Bydd angen i drefniadau pontio fod yn gryf ac yn effeithiol; bydd angen gwneud disgyblion yn effro i'r opsiynau eraill sydd ar gael iddyn nhw er mwyn iddyn nhw wneud penderfyniad mwy gwybodus.</p> <p>Efallai y bydd angen cynlluniau pontio pwrpasol ar lawer o'r disgyblion a bydd cyfathrebu da gydag aelodau o staff Ysgol Gymunedol Aberdâr yn allweddol. Bydd gan staff Ysgol Gyfun Aberpennar ddealltwriaeth dda o anghenion disgyblion a bydd modd iddyn nhw ddarparu cymorth ychwanegol i'r disgyblion hynny sydd ei angen fwyaf.</p>
3	<p>Mae aelodau o staff yn pryderu am yr amserlen fer.</p>	<p>Rydyn ni'n annog pawb i gyflwyno ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad gyda'u pryderon. Yna bydd gan Lywodraeth Cymru yr wybodaeth yma er mwyn gwneud y penderfyniad terfynol. Bydd modd i'r Llywodraeth benderfynu gohirio'r dyddiad gweithredu, ond dyna fydd penderfyniad i'r Llywodraeth ei wneud.</p>
4	<p>Mae disgyblion yn teimlo y bydden nhw'n cael eu trin yn wahanol yn y chweched dosbarth newydd. Sut rydyn ni'n ei hybu i ddisgyblion?</p> <p>Oes modd cyfeirio at chweched dosbarth Ysgol Gymunedol Aberdâr fel Canolfan Chweched Dosbarth?</p>	<p>Mae defnyddio iaith gadarnhaol wrth drafod y newidiadau gyda disgyblion yn syniad da. Bydd cydweithio gydag aelodau o staff ôl-16 yn y ddwy ysgol yn allweddol i greu amgylchedd cadarnhaol ar gyfer pontio. Bydd nodi a sefydlu achlysuron newydd creadigol ar gyfer pontio yn bwysig i bob ysgol sy'n rhan o'r broses.</p>
5	<p>Bu gostyngiad yn niferoedd y disgyblion chweched dosbarth dros y blynyddoedd diwethaf, fodd bynnag, mae'n bosibl</p>	<p>Mae digon o le yn Ysgol Gymunedol Aberdâr i ymdopi â derbyn mwy o fyfyrwyr ôl-16 oed pe bai niferoedd yn cynyddu. Dylid nodi bod gostyngiad yn</p>

	bydd y niferoedd yma'n codi eto'r flwyddyn nesaf.	niferoedd ôl-16 yn y rhan fwyaf o ysgolion. Dyw hyn ddim yn rhywbeth unigryw i'r ysgolion sy'n ymwneud â'r cynnig yma.
6	Mae rhai pynciau, e.e. Peirianeg, yn cael eu cynnig yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn unig. Does dim aelodau o staff sy'n gallu addysgu'r cyrsiau yma yn Ysgol Gymunedol Aberdâr ar hyn o bryd. Oes modd i aelodau o staff weithio rhwng y ddwy ysgol?	Mae'n anodd ymateb yn bendant nes bod nifer y disgyblion wedi'i gadarnhau a'r galw am gyrsiau wedi'i sefydlu gan fod ystyriaethau ariannol. Ein nod yw adleoli aelodau o staff yn llwyddiannus. Os oes angen cwrs penodol, yna fe allai trefniant posib i gydweithio a rhannu staff o dan drefniant secondiad fod yn opsiwn sy'n cael ei archwilio. Serch hynny, byddai angen trafod hyn ymhellach gyda'r aelodau o staff a'r ysgolion perthnasol. Bydd pennu ffyrdd creadigol yn cael eu cefnogi, ond ar hyn o bryd rydyn ni'n ansicr am y galw am gyrsiau penodol.
7	Sylw: Mae gan golegau fwy o fuddsoddiad ac adnoddau ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar ysgolion. Ceisiodd yr ysgol gael ymagwedd fwy cydweithredol gyda'r coleg, ond ni wireddwyd hyn.	Wedi'i nodi, fodd bynnag, mae'r coleg yn aml yn barod iawn i weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol.
8	Mae'r chweched yn Ysgol Gyfun Aberpennar yn fach ond mae'n llwyddiannus, ac rydyn ni'n annog disgyblion i anelu'n uchel. Mae llawer o ddisgyblion wedi mynd ymlaen i fod yn llwyddiannus ar ôl cwblhau'r chweched dosbarth, ac mae aelodau o staff yn pryderu na fydd y cymorth maen nhw'n ei dderbyn yn Ysgol Gymunedol Aberdâr yr un peth.	Mae gan bob ysgol gyfrifoldeb i gael y gorau o bob disgybl. Mae'r Prosiect Seren yn gwneud gwaith gwych yn darparu cefnogaeth yn hyn o beth, ac mae'n bwysig i'n disgyblion fod yn uchelgeisiol. Mae cyngor ac arweiniad gyrfaoedd da yn bwysig ac mae rhywfaint o waith rhagorol yn mynd rhagddo yn ein hysgolion mewn perthynas â meincnodau GATSBY.
9	A allem ni gynnig mwy o gyrsiau i gystadlu â cholegau?	Mae'r cyllid yn seiliedig ar niferoedd disgyblion felly o ystyried y niferoedd presennol sydd yn yr ysgolion, does dim cyllid ar gael i wneud hyn.
10	Ydych chi wedi sylwi ar unrhyw dueddiadau penodol yng nghyfnod allweddol tri a phedwar?	Nac ydyn.
11	Mae pryder am yr amserlenni ar gyfer aelodau o staff yn gadael a chymorth ar gyfer aelodau o staff sy'n cael eu swyddi wedi eu dileu.	Bydd yr amserlen ar gyfer tymor yr haf yn cael ei mapio a'i rhannu â'r aelodau o staff pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i fwrw ymlaen â'r cynnig. Bydd y garfan Adnoddau Dynol yn cynnig cymorth i'r holl aelodau o staff a bydd datganiadau o ddiddordeb ar gyfer ymddiswyddo yn cael eu hystyried.

12	Sut bydd modd i ni gynllunio cwricwlwm, gan na fydd digon o amser?	<p>Ystyriwch osod y cwricwlwm nawr wrth i ni barhau yn y cyfnod cynnig. Byddwn ni'n gweithio gyda'r ysgolion mewn perthynas â'r gyllideb.</p> <p>Bydd yr Awdurdod Lleol yn parhau i weithio gyda'r ysgol a chynnig cymorth os oes angen i bontio unrhyw fylchau sy'n codi oherwydd amseriad y penderfyniad.</p>
13	Pryder dros ddisgyblion sydd eisiau mynychu'r coleg i astudio cwrs sydd hefyd ar gael yn y chweched dosbarth gan na fydden nhw'n gymwys i gael cludiant am ddim.	Yn anffodus, fydd disgyblion ddim yn gymwys i gael cludiant am ddim i'r coleg os yw'r un cwrs yn cael ei gynnig mewn lleoliad agosach. Mae hyn yn unol â Pholisi Cludo Disgyblion o'r Cartref i'r Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (y Cyngor) ac mae modd dod o hyd i'r wybodaeth yma ar wefan y Cyngor.
14	Pa opsiynau eraill sydd wedi'u hystyried?	<p>Mae opsiynau wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori, ac mae'r rhesymau pam y cawson nhw eu diystyru hefyd wedi'u cynnwys. Dyma'r opsiynau a ystyriwyd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cael gwared ar y ddarpariaeth chweched dosbarth o Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr • Cyfuno Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr o dan un Pennaeth ac un Corff Llywodraethu • Cadw'r sefyllfa bresennol – parhau i gynnig darpariaeth chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysgol Gymunedol Aberdâr
15	Ydy'r ymgynghoriad presennol ynghylch dosbarthiadau cynnal/cymorth dysgu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn broses i newid Ysgol Gyfun Aberpennar o ysgol brif ffrwd?	Nac ydy, mae angen dosbarthiadau cynnal dysgu ar gyfer disgyblion ADY yn Ysgol Gyfun Aberpennar ac erbyn hyn mae llawer o ysgolion yn cynnig dosbarthiadau o'r fath.
16	Mae nifer o aelodau o staff wedi codi pryderon am ddatblygiad proffesiynol o ystyried y bydd y cynnig yn diweddu'r cyfle i addysgu disgyblion ôl-16.	Mae hyn yn ddealladwy ac rydyn ni'n cydnabod bod safon yr addysgu a'r dysgu yn dda yn Ysgol Gyfun Aberpennar. Serch hynny, rydyn ni'n awyddus iawn i wneud yn siŵr ein bod ni'n cadw'r aelodau o staff rhagorol yn Ysgol Gyfun Aberpennar, gan fod angen i ddisgyblion cyfnod allweddol tri a

		phedwar hefyd gael eu haddysgu gan yr athrawon da sydd eisoes yn yr ysgol.
--	--	--

4. Sylwadau i Gloi

Rhoddwyd diolch i bawb a oedd yn bresennol am gymryd rhan yn y cyfarfod.

Daeth y cyfarfod i ben am 16:45.